Coleg Gwent

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# EAL Diploma NVQ mewn Gweithrediadau Peirianneg Perfformio Lefel 2



### Yn gryno

Datblygwyd y cymhwyster hwn i alluogi dysgwyr i ddangos cymhwysedd yn eu galwedigaeth beirianneg mewn rôl ymarferol megis gwaith gydag offer llaw, peiriannu, melino, CNC neu sgiliau turnio. Mae'r cymhwyster yn berthnasol i amrywiaeth eang o alwedigaethau peirianneg yn y sector, yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

Mae'r cymhwyster wedi'i ddylunio gan ddiwydiant ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â rôl beirianneg beth bynnag fo'r sector.

Gall dysgwyr fod yn gyfrifol er enghraifft am redeg offer o ddydd i ddydd ac am ansawdd gwaith. Maent hefyd yn gallu monitro a rheoli offer ac ansawdd a gallant hefyd arfer rhywfaint o farn a gwneud penderfyniadau am y broses beirianneg.

### Cynnwys y cwrs

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae hwn yn Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ). Mae'n cynnwys y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau mewn peirianneg gan gynnwys y gallu i drefnu gwaith a nodi ac atal problemau.

Rhaid i'r dysgwr gyflwyno tystiolaeth (wedi'i chofnodi mewn portffolio) sy'n dangos yn glir eu bod wedi bodloni meini prawf asesu a deilliannau dysgu'r unedau a ddewiswyd.

Rhaid i'r dysgwr gyflawni'r unedau gorfodol a dewisol sy'n berthnasol i'w llwybr a'u rôl alwedigaethol

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, fodd bynnag, bydd y cymhwyster yn cael ei farnu'n rhannol ar asesiadau a arsylwyd yn y gweithle felly mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn gweithio mewn amgylchedd peirianneg.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cymhwyster hwn yn y gweithle ac nid ar gampws i unigolion ei fynychu. Cytunir ar ddyddiadau darparu ymlaen llaw gyda chi a'ch cyflogwr.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys 6 uned. Gall gymryd rhwng 6 a 14 mis i'w gwblhau. Gall dysgwyr ei gwblhau yn ôl eu pwysau eu hunain ond bydd ein tîm o aseswyr yn rhoi cynllun cychwynnol ar waith i gwblhau uned bob mis ac mae'n bosib ei gwblhau'n gynt. Bydd dyfynbris ffurfiol yn cael ei baratoi unwaith y byddwn yn deall eich anghenion hyfforddi ond, fel canllaw, rydym yn codi £500 y person ynghyd â ffioedd cofrestru ychwanegol y corff dyfarnu (tua £80).